


PAPERTRAIL

# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR

PAPERTRAIL.ORG

# Croeso | Welcome...

“Diolch am eich diddordeb i ddod yn ymddiriedolwr gyda Papertrail. Rydw i wrth fy modd bod yn Gadeirydd cyfredol y cwmni ac yn edrych ymlaen i groesawu aelodau newydd i’r bwrdd yn rhan o ddatblygiad rhannu straeon y cwmni”

Fe wnes i ddarganfod Papertrail ddeg mlynedd yn ol wedi gwylio eu cynhyrchiad cyntaf, Day to Go, a chael fy syfrdanu gan harddwch a gwerth y gwaith a’i berthnasedd gyda chymunedau yng Nghymru. Ers hynny mae Papertrail wedi creu argraff arbennig o gynhyrchu theatr o’r safon uchaf, gan rannu straeon pwysig nad ydynt yn cael eu clywed ac sydd angen eu clywed.

Straeon ffoaduriaid yn gwynebu profiadau anghredadwy, straeon cymunedau dosbarth gweithiol y Bari a gafodd eu rhannu gyda chynulleidfa wrth iddynt dethio o gwmpas mewn bws lleol, straeon gan gyn-garcharorion yn cael ei rannu gyda chynulleidfa dros bryd o fwyd ym mwyty The Clink yng Nghaerdydd, straeon o’r cysylltiadau niwcliar rhwng Cymru a Siapan yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac, yn fwy diweddar, cyflwyno A Visit, ein cynhyrchiad diweddara mewn cydweithrediad a Clean Break. Mae’r ddrama ddirdynol hon yn taflu golau ar effaith y system garchar ar deuluoedd, yn enwedig mamau sengl mewn carchardai tu hwnt i Gymru. Mae llwyddiant y cynhyrchiad llynedd wedi ein galluogi i fynd a’r ddrama ar daith yn ystod 2025. Mae sawl prosiect cyffrous mewn datblygiad gan gynnwys Moses, Grobbelaar and Me a gafodd ei ysgrifennu gan sefydlydd y cwmni Bridget Keehan a Cyd-Gyfarwyddwr y cwmni Jonny Cotsen.

Wrth i’r cwmni ddatblygu, rydym yn datblygu ein bwrdd yn ogystal. Wrth i ni ddechrau ar gyfnod newydd Papertrail hoffwn glywed gan ddarpar ymddiriedolwyr o gefndiroedd amrywiol sydd yn rhannu ein gwerthoedd a’n huchelgais ac a fydd yn gallu gweithio law yn llaw gyda ein tim craidd, a’r bwrdd i helpu siapio dyfodol Papertrail.”

Suzanne Carter
Cadeirydd Papertrail





Ein nod ydy dod o hyd i straeon sydd ddim yn cael eu clywed a'u cyflwyno i gynulleidfa mewn ffyrdd atyniadol. Mae pob cynhyrchiad yn gyfuniad o ysgrifennu beiddgar a llwyfanu anturus ac yn cynnwys gweithio law yn llaw gyda chymunedau wrth greu y gwaith. Mae ein proses yn cael ei sbarduno gan chwilfrydedd. Rydym yn awyddus i ddod i adnabod pobl o leoliadau arbennig a dod o hyd i'r stori sydd angen cael ei glywed.

Mae Papertrail wedi bod yn cynhyrchu sioeau am dros 10 mlynedd ac mae'r cwmni ar fin cychwyn pennod newydd.



Diolch i gefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Sefydlydd a Chyfarwyddwr  Bridget Keehan a'r Cyd-Gyfarwyddwr newydd, Jonny Cotsen wedi creu gweledigaeth strategol newydd i  Papertrail i gario mlaen i ddod o hyd ac i rannu straeon sydd ddim yn cael eu clywed, yn enwedig rheiny sydd yn cael eu tangynrychioli yn y theatr gan gynwnys y gymuned Fyddar.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bwriad Papertrail ydy datblygu y cwmni gan recriwtio tim a fydd yn cefnogi eu cynlluniau beiddgar, gan gynnwys cyflogi Rheolwr Cyffredinol a Chynhyrchydd Creadigol. Bydd y cwmni yn datblygu cynllun Artist Cysylltiol a Mentora ac yn peilota cynllun hyfforddiant dehongli BSL / cyfarwyddo theatr.

# Gweledigaeth

Mae Papertrail yn gwmni theatr sydd a'r nod i gysylltu gyda ystod eang o unigolion a chymunedau ar hyd Cymru i greu cyfleon i rannu straeon drwy berfformiad byw. Drwy bartneriaethau cydweithredol rydym yn ymdrechu i ddiddymu rhwystrau i gymeryd rhan mewn celfyddyd, herio trefn cymdeithasol, diddanu ac ysbrydoli.



# Gwerthoedd

Yn greadigol uchelgeisiol: Y nod ydy cyflwyno cynhyrchiadau nodedig i bobl mewn gwahanol leoliadau, i fod yn arloesol yn y ffordd rydym yn gweithio, ac i rannu straeon mewn ffyrdd cyffrous ac annisgwyl.

**Cefnogol:** Rydym yn cymeryd gofal yn y ffordd rydym yn rhyngweithio gyda pobol ac drwy weithio mewn partneriaeth, yn anelu i alluogi ffyrdd i bawb rydym yn gyfarfod  gael mynediad i greadigrwydd, cyflawni eu potensial ac mwynhau eu profiad gyda ni.

**Eofn:** Mae gennym nod i gymeryd risg creadigol ac i herio ein hunaian ac eraill. Rydym yn barod i ofyn cwestiynnau annodd.

**Dychmygol:** Rydym eisiau gweithio gyda syniadau mawr ac mewn ffyrdd gwahanol i ysbrydoli pobl i greu a rhannu mathau newydd o theatr.

**Cynwysiedig: Rydym** yn agored a chroesawgar ac yn chwilfrydig ynglyn a phosibiliadau newydd ac yn credu y dylai pawb rydym yn gweithio gyda nhw gael eu clywed a'u gwerthfawrogi.

# AM BWY RYDYM YN CHWILIO AMDANO

**Rydym yn awyddus i glywed gan:**

- unigolion sydd yn angerddol am y celfyddydau, diwylliant a'r iaith Gymraeg.
- yn ymlynu i gynhwysiant a chydraddoldeb
- gyda phrofiad cyflogaeth proffesiynol
- gyda phrofiad o wirfoddoli
- gyda phrofiad bywyd amrywiol

**Profiad Proffesiynol a Gwirfoddoli**
**Rydym yn awyddus i glywed gan bobl gyda phrofiad proffesiynol a gwirfoddol gyda'r sgiliau canlynol:**

- **Cyllid**
- **Adnoddau Dynol a Llywodraethu**
- **Cyfreithiol**
- **Codi Arian**

Er bod profiad o fewn y celfyddydau a'r sector cyhoeddus ac elusennol yn fuddiol, mae Papertrail yn croesawu unigolion sydd a mewnwelediad amhrisiadwy o gefndiroedd gwahanol hefyd.

**Mynd i'r afael ac anghydraddoldeb yn y Celfyddydau**

Mae ein gwaith yn ymgysylltu gyda ystod eang o bobl ac rydym eisiau i'n bwrdd adlewyrchu hynny. Ein nod ydy galluogi llais pobl o gymunedau sydd yn cael eu tangynrychioli gael eu clywed.
Rydym eisiau mynd i'r afael ac anghydraddoldeb strwythyrol ac rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan bobl sydd yn cael eu tangynrychioli yn y celfyddydau, ac gan unigolion sydd yn cael eu gwahaniaethu yn sgil hil, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedl, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran.

# ROL YMDDIRIEDOLWR

Dyma grynodeb o'r Swydd Ddisgrifiad. Mae'r Swydd Ddisgrifiad llawn ar ein gwefan.

## Sgiliau Angenrheidiol fel Ymddiriedolwr

- Gwir angerdd am y celfyddydau, diwyddiant a chymunedau.
- Dealltwriaeth cryf o bwysigrwydd ymarfer cynwysoldeb a theg.
- Ymroddedig i weithio yn gydweithredol gyda ymddiriedolwyr eraull, staff y cwmni a phartneriaid cymunedol.
- Brwdfrydig i feithrin perthynas bositif sydd yn adlewyrchu ethos Papertail o gyd ddysgu a chefnogi.
- Angerddol am Gymru a'i chelfyddyd ac yn gefnogol o'r iaith Gymraeg.
- **Gallu** i drafod a craffu ar ddogfennau a phrosesau swyddogol.

## Sgiliau sydd ganddo chi eisioes o bosib:

- Profiad o weithio gyda ystod eang o ariannwyr a phartneriaid.
- Dealltwiaeth o'r sector elusennol, celfyddydol neu cyhoeddus yn enwedig sefydliadau celfyddydol bach.
- Profiad bywyd sydd yn adlewyrchu gwaith Papertrail a'r prosiectau sydd wedi eu creu hyd yn hyn.

# ROL YMDDIRIEDOLWR

## Eich ymrwymiad fel Ymddiriedolwr

- .Rydym yn cynnal ar gyfartaledd pedwar cyfarfod bwrdd y flwyddyn, rhai wyneb yn wyneb a rhai arlein. Weithiau bydd disgwyl i chi ddod i gyfarfodydd ychwanegol i gynnig eich arbenigedd a chyngor ar agweddau arbennig.
- Mae angen i Ymddiriedolwyr wneud amser i ddarllen papurau'r Bwrdd ac ebyst yn ogystal a mynychu diwrnod strategol gyda'r staff.
- Fel Ymddiriedolwr Papertrail mae ganddo chi gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn cyflawni ein amcanion sefydliad elusennol a parhau i weini cynulleidfa a chymunedau led led Cymru

- .Rydym yn gofyn i Ymddiriedolwr weini ar y bwrdd am leiafswm o dair blynedd.

- Mae Ymddiriedolwyr yn gwirfoddoli ac yn gwenud hynny yn ddi-dal ar ran Papertrail. Fe ad-dalir costau teithio am ddiwrnodau i ffwrdd ac am gyfarfodydd bwrdd.

## I fod yn Ymddiriedolwr, mae'n rhaid i chi fod:

- Yn 18 mlwydd oed neu'n hyn
- Wedi eich lleoli yn y DU
- Heb fod wedi eich diarddel o fod yn Ymddiriedolwr onibai bod hynny wedi ei hepgori gan y Comisiwn Elusennol.
- Gallu ymrwymo i leiafswm o dair blynedd ar y bwrdd a gyda amser ar gyfer cyfarfodydd a darllen dogfennau. Ymrwymo hefyd i ddod i berfformiadau a digwyddiadau mar Papertrail yn ei greu.

Rydym yn y broses o ddod yn elusen ac rydym yn disgwyl i'n ymddiriedolwyr ymrwymo i'r chwech dyletswydd angenrheidiol y Comisiwn Elusennol. Mae mwy o wybodaeth am ddyletswydd i Comisiwn Elusennol i'w ganfod fan hyn

# YR HYN RYDYM YN OBEITHIO Y BYDDWCH YN ELWA O'R PROFIAD

- Cyfle i helpu siapio dyfodol Papertail mewn cyfnod trawsnewidiol wrth i'r cwmni ddatblygu gweledigaeth newydd.
- Bod yn rhan o grwp ymroddedig o Ymddiriedolwyr a staff ymroddedig sydd yn angerddol a diwyd am rannu straeon sydd heb eu clywed a chysylltu gyda chymunedau.
- Dysgu mwy am y broses cynhyrchu creadigol a sut mae Papertrail yn cyfranu i'r theatr yng Nghymru a thu hwnt.
- Cyfle i ddysgu am arfer gorau a chynlluniau hyfforddi hygyrch a chynwysedig
- Dysgu datblygu sgiliau effeithiol o wneud penderfyniadau a dealltwriaeth dyfnach o reoli tim a datblygu perthynas.
- Defnyddio eich profiad bywyd a'ch harbenigedd i hysbysu datblygiad y cwmni a goresgyn rhwystrau o gymeryd rhan a chyfranogi yn y celfyddydau.




# ADOLYGIADAU: A VISIT

## NATION.CYMRU

“A Visit is a must-see force of a production...If you want to see more plays but never seem to find the time, make time for A Visit. If you want to get out of the house, use your freedom to see A Visit. If you know or don’t know anyone who has been incarcerated, go and see A Visit. Go with your mother. Go with your sisters. Go with your friends. Go on your own. Go and see A Visit.”

## ALEX JONES AS PONTYPRIDD

“What a fantastic experience seeing A Visit at YMa, so powerful emotive and raw. The acting, the music, the incredible inclusivity-every bit of it was superb.”



# ADOLYGIADAU: A NIGHT IN THE CLINK

## THE STAGE

"Affecting and poignant prison drama"

## NATION.CYMRU

"It fuses immersive theatre, issue-driven theatre, real-life stories, bilingual theatre....and also food. It's a melting pot of a theatrical dish, and one that works as elegantly as Michelin star service."




# ADOLYGIADAU: A DAY TO GO

## BUZZ MAGAZINE

“A wonderful, eye opening experience that never stops giving.”

## WALES ARTS REVIEW

“A melodic, multi-layered, deftly designed and superbly, skilfully wrought production”

# BWRDD YMDDIRIEDOL WYR CYFREDOL



## Suzanne Carter

Mae Suzanne wedi bod yn gweithio ym myd marchnata'r celfyddydau, diwylliant a digwyddiadau am dros 25 mlynedd. Hyfforddodd fel newyddiadurwr ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd. Mae hi wedi gweithio gyda awdurdodau lleol, elusennau ac sefydliadau celfyddydol mawr a bach.

Mae hi nawr yn gweithio'n llaw rydd fel ymgynghorydd Marchnata a Cyfathrebu ac yn y blynyddoedd diwethaf wedi cefnogi Theatr y Sherman, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru,, Citrus Arts, UPROAR, Adverse Camber, The Other Room a People Speak Up. Mae Suzanne wedi ei chofrestru gyda'r Sefydliad Siartedig Marchnata.



## Dr Amanda Rogers

Mae Amanda yn Athro Cysylltiol Daearyddiaeth Ddynol a Geoddyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe. Yn flaenorol mae hi wedi gweithio fel rheolwr llwyfan, cyfarwyddwr a chynhyrchydd cynorthwyol ac yn fwy diweddar wedi comisiynu ffilmiau dawns, curadu arddangosfeydd ffotograffiaeth a chynhyrchu gwyliau celfyddydol yn Ne Ddwyrain Asia. Mae ei gwaith ymchwil yn rhyngddisgyblaethol ond yn ymroddedig i gydraddoldeb a cyfranogiad yn y celfyddydau.– yn enwedig grwpiau ymylol. Yn y gorffennol mae hi wedi ymgyrchu ar gyfer gwell amrywiaeth hiliol ar lwyfan a sgrin ond yn fwy diweddar wedi bod yn gwenud gwaith sydd o blaid defnyddio'r celfyddydau i ehangu trafodaethau mewn cymdeithas sifil a hybu cysylltiad pobl ifanc yn y celfyddydau.



## Dr Branwen Davies

Mae Branwen yn ddramodydd, theatr wnaethurwr a dramatwrg sydd ar hyn o bryd yn rhedeg Cwmni Theatr yr Urdd.

Bu Branwen yn Reolwr Llenyddol y Sherman ac mae hi'n angherddol am ysgrifennu newydd a dod o hyd i leisiau newydd a grymuso lleisiau newydd ar gyfer y llwyfan. Mae gwaith theatr diweddar yn cynnwys cyfieithu Fleabag i'r Gymraeg i Theatr Clwyd a gwaith dramatwrg i Theatr Iolo a Taking Flight Theatre Company. Mae Branwen yn ddarlithydd gwadd yn RWCMD ac mae hi hefyd wedi cydweithio gyda Illumine Theatre, Papertrail, Os Nad Nawr, Dirty Protest, Mess Up The Mess Theatr y Sherman a Theatr Cymru .



# SUT I YMGEISIO

Os hoffe chi wybod mwy am fod yn ymddiriedolwr Papertrail cysylltwch gyda ein
Rheolwr Cyffredinol, Alexandra Lort Phillips:
manager@papertrail.org.uk
Os yn penderfynu ymgeisio i fod yn ymddiriedolwr rydym yn gofyn am:

- Lythyr eglurhaol neu Ebost yn egluro pam hoffe chi fod ar y bwrdd.
- Eich CV.
- I lenwi Ffurflen Cyfleon Cyfartal sydd i'w gael ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau fidio 2 funud o hyd.
Os ydych yn cael eich cynnwys ar restr fer, byddwn yn eich gwahodd am sgwrs gyda aelod cyfredol o'r bwrdd. Byddwn hefyd yn eich gwahodd i gyfarfod y tîm yn hwyrach yn y flwyddyn cyn i chi benderfynu os am ymrwymo.

## Darganfod mwy am Papertrail:

Papertrail.org.uk
Facebook
LinkedIn

# DIOLCH.